OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 1085 (Cy.133)

RHAGOFALON TÂN, CYMRU

Rheoliadau Diogelwch Tân (Galluoedd Cyflogeion) (Cymru) 2012

Gwnaed - - - -	*8 Ebrill 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*16 Ebrill 2012*
Yn dod i rym - -	*12 Mai 2012*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan erthygl 24 o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

Yn unol ag erthygl 24(4) o'r Gorchymyn hwnnw mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ag unrhyw bersonau neu gyrff o bersonau yr oedd yn ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn briodol.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelwch Tân (Galluoedd Cyflogeion) (Cymru) 2012.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 12 Mai 2012.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Cyflogwyr i ystyried galluoedd cyflogeion

2. Rhaid i bob cyflogwr, wrth roi tasgau yng ngofal cyflogeion, ystyried galluoedd y cyflogeion hynny o ran iechyd a diogelwch, i'r graddau y mae'r galluoedd hynny yn ymwneud â thân.

(**1**) O.S. 2005/1541; a ddiwygiwyd gan O.S. 2006/484; y mae offerynnau diwygio eraill i'w cael, ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2006 (O.S. 2006/1458). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).